Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Mai 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4986

140

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.18

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rôl Trafnidiaeth Cymru yn y fasnachfraint reilffyrdd newydd a gyhoeddwyd heddiw?

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (atebwyd gan y Gweinidog Tai ac Adfywio):

David Melding (Canol De Cymru): Beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad terfynol ar adolygiad annibynnol y Fonesig Judith Hackitt o reoliadau adeiladu a diogelwch tân?

4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.50

Gwnaeth Jayne Bryant ddatganiad ar Wythnos Weithredu Dementia.

Gwnaeth Jack Sargeant ddatganiad i gofio'r Ymosodiad yn Arena Manceinion.

Gwnaeth Simon Thomas ddatganiad ar sefydliad DPJ, sy'n cefnogi iechyd meddwl pobl mewn ardaloedd gwledig.

5 Datganiad gan y Llywydd: Diweddariad ar sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru

Dechreuodd yr eitem am 15.55

6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau: Deiseb P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

Dechreuodd yr eitem am 16.30

NDM6727 David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd' a gasglodd 7,171 o lofnodion.

2. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2018.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol. Rhan un: safbwynt o Gymru

Dechreuodd yr eitem am 17.33

NDM6728 David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth Ychwanegol a Materion Allanol, 'Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol. Rhan un: safbwynt o Gymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 16 Mai 2018.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Dechrau'n Deg: Allgymorth

Dechreuodd yr eitem am 18.18

NDM6729 Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Dechrau'n Deg: Allgymorth a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 16 Mai 2018.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

9 Cyfnod Pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.11

NDM6726 Nick Ramsay (Mynwy)

Mae angen eich cefnogaeth ar dadau hefyd: sicrhau bod tadau yn parhau i gael llais a chefnogaeth i fod yn fodelau rôl cadarnhaol ym mywydau eu plant.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.30

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Mehefin 2018